

Cipolwg ar y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

Dylid darllen y 27 datganiad Yr Hyn sy'n Bwysig yn eu cyfanrwydd i'w deall yn llawn. <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/egwyddorion-ar-gyfer-cynllunio-ch-cwricwlwm/#datganiadau-o'r-hyn-sy'n-bwysig>

Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB1 Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.	Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB2 Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.	Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB3 Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrâu, ysbrydoliaeth a dychymyg.	Y Dyniaethau YHSB1 Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
Y Dyniaethau YHSB2 Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.	Y Dyniaethau YHSB3 Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	Y Dyniaethau YHSB4 Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.	Y Dyniaethau YHSB5 Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.
Iechyd a Lles YHSB1 Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.	Iechyd a Lles YHSB2 Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.	Iechyd a Lles YHSB3 Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.	Iechyd a Lles YHSB4 Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.
Iechyd a Lles YHSB5 Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB1 Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB2 Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB3 Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB4 Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.	Mathemateg a Rhifedd YHSB1 Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.	Mathemateg a Rhifedd YHSB2 Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.	Mathemateg a Rhifedd YHSB3 Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
Mathemateg a Rhifedd YHSB4 Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB1 Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB2 Mae meddylfryd dylunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB3 Mae'r byd o'n cYHSBpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB4 Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB5 Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.	Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB6 Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.	